## Trosolwg

Mae'r safon yma yn cydfodoli â, **SKAHDBRBNST1 Gweithredu, a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol. a SKAHDBRBNS1 Ymgynghori, asesu, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau Gwallt, Barbro, Harddwch, Ewinedd, Lles a Holistig**. Mae'r safon yma'n ymwneud â rhywun o'r proffesiwn trin gwallt sy'n torri blew'r wyneb gan ddefnyddio technegau torri clwb, llawrydd, siswrn dros y grib, trimio, cliper dros y grib a chliperi gan ddefnyddio giard. Bydd gofyn i chi hefyd werthuso ac adfyfyrio ar ôl y gwasanaeth er mwyn ei wella'n barhaus. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon yma sicrhau bod eu harferion yn adlewyrchu'r wybodaeth, polisïau, gweithdrefnau a'r canllawiau arferion gorau diweddaraf. Caiff defnyddwyr y safon yma eu cynghori i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio â, gofynion cymorth cyntaf, yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau.

**Y prif deilliannau yw:**

1. Trimio a mwstas
2. trimio barf
3. trimio barf a mwstas rhannol
4. trimio barf a mwstas llawn

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cynnal ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn

2. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwyddebau a chanllawiau i gynnwys: 2.1 cael gwared o flew dros ben a thoriadau o flew wyneb o groen yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth

2.2 codi blew sydd dros ben oddi ar y llawr er mwyn osgoi anaf

3. trafod a darganfod amcanion yr unigolyn a'r canlyniadau a ddymunir, er mwyn cael y wybodaeth ar gyfer y cynllun gwasanaeth torri blew'r wyneb, i gynnwys:

3.1 ystyried strwythurau anatomegol y pen a'r wyneb

dewisiadau amgen ar gyfer triniaeth

1. gwneud dadansoddiad o flew'r wyneb a'r croen er mwyn penderfynu ar y cynllun gwasanaeth torri blew'r wyneb, i gynnwys:

4.1 **dosbarthiad cyrls y blew**
4.2 **nodweddion gwallt**

4.3 patrymau tŵf blew'r wyneb
4.4 dosbarthiad croen

4.5 cyflwr y croen

4.7 gwallt yn tyfu am i mewn
4.8 tyllau yn y wyneb

5. cadarnhau a chytuno gyda’r unigolyn, eu bod wedi deall y gwasanaeth torri blew’r wyneb arfaethedig, i gynnwys :

5.1 gwrth-weithredoedd

5.2 adweithiau niweidiol

1. sicrhau cydsyniad gwybodus gan yr unigolyn am y gwasanaeth torri blew'r wyneb

7. paratoi’r croen a’r blew yn unol â’r **protocol gwasanaeth torri blew’r wyneb.**

   1. dewis **offer a chyfarpar** sy'n addas ar gyfer dosbarthiad cyrls blew yr unigolyn er mwyn sicrhau'r edrychiad a ddymunir, i gynnwys

8.1 trin a defnyddio'r offer a'r cyfarpar mewn modd diogel er mwyn osgoi niwed i'r croen a'r blew

   1. creu a thorri'r canllaw gwreiddiol gan ddefnyddio **technegau torriblew'r wyneb** yn unol â'r cynllun torri blew'r wyneb, i gynnwys:

9.1 cadarnhau gyda'r unigolyn a ydyw eisiau bwrw ymlaen gyda thorri blew ei wyneb

10.torri blew wyneb yr unigolyn gan ddefnyddio’r canllawiau er mwyn sicrhau bod pwysau, cymesuredd, cydbwysedd a siap yn cael eu sicrhau i gynnwys:

10.1 cylchdroi eich safle o gwmpas yr unigolyn er mwyn sicrhau cywirdeb y toriad

10.2 addasu eich technegau torri blew’r wyneb yn unol â’r protocol gwasanaeth torri blew’r wyneb.

11. croes-edrych ar y toriad er mwyn sicrhau dosbarthiad cywir o bwysau, cymesuredd, cydbwysedd a siâp

   1. siapio cylchfesurau'r blew gan ddefnyddio technegau torri blew'r wyneb, gan gymryd i ystyriaeth:

12.1 rhimyn naturiol y blew

12.2 patrymau tŵf blew'r wyneb

12.3 cwblhau'r gwasanaeth torri blew'r wyneb gan sicrhau bod yr unigolyn yn rhydd o ddarnau o flew i gynnwys:

13. dodi cynnyrch wedi triniaeth

14. monitro iechyd a lles yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth torri blew'r wyneb

15. gweithredu'r camau cywir os bydd adwaith niweidiol

   1.
   cwblhau cofnodion gwasanaeth yr unigolyn a'u cadw yn unol â deddfwriaeth data
   2.
   defnyddio ymarfer adfyfyriol i werthuso'r gwasanaeth torri blew'r wyneb a chymryd

camau priodol

3.

rhoi **cyfarwyddiadau** a chyngor i'r unigolyn, cyn ac ar ôl y gwasanaeth

19. cofnodi canlyniad y gwasanaeth torri blew'r wyneb a'r gwerthusiad ohono

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich rol a'ch cyfrifoldebau o ran darparu gwasanaethau torri blew'r wyneb a'r pwysigrwydd o weithio o fewn eich gallu.

2. pam ei bod yn rhaid i chi gydymffurfio gydag arfer moesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol; i gynnwys:

2.1 y cyfrifoldebau drosoch chi eich hunain a'ch adeiladau o dan reoliadau trwyddedu yr awdurdod lleol

3. pwysigrwydd ymwneud â, a dogfennu datblygiad proffesiynol parhaus, i gynnwys, polisïau gwybodaeth wedi eu diweddaru, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer arfer gorau

4. yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma

5. y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i'r gwasanaeth torri blew, i gynnwys:

5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol a chyfeirio

6. pwysigrwydd adnabod nodweddion afreolaidd ar y croen a niwed i groen y pen, a'u cyfeirio at weithiwr proffesiynol gofal iechyd perthnasol

   1. cyfyngiadau technegau torri blew'r wyneb a'r addasiadau sy'n ofynnol, mewn perthynas â'r canlynol:

7.1 dosbarthiad croen a cyrls gwallt

7.2 nodweddion blew

7.3 cyflwr y croen

7.4 patrymau tŵf blew'r wyneb

7.5 strwythyrau anatomegol y pen a'r wyneb yn cynnwys rhannau o'r croen sydd wedi eu codi neu eu gostwng

7.6 tyllau yn y wyneb

7.7 disgwyliadau'r unigolyn

1. strwythurau anatomegol y pen a'r wyneb a sut maent yn effeithio ar y gwasanaeth torri blew'r wyneb

9. sut i asesu amlinellau a nodweddion yr wyneb er mwyn cadarnhau siap priodol blew'r wyneb

1.
pryd a phan mae'r croen a'r blew yn cael eu glanhau cyn y gwasanaeth torri blew'r wyneb
2.
pam dylech chi gribo'r blew cyn y gwasanaeth torri blew'r wyneb

12. y mathau traddodiadol a chyfredol o siapiau blew’r wyneb a siapiau rhimyn y gwddf, i gynnwys:

12.1 sut i adnabod siapiau addas ar gyfer blew'r wyneb

12.2 sut mae patrymau tŵf blew’r wyneb yn effeithio ar y dewis o siap blew’r wyneb

13. y mathau, sut a phryd i ddefnyddio technegau torri blew'r wyneb ar gyfer pob dosbarthiad cyrl blew:

13.1 y siap a'r dyfnder cyffredinol

13.2 y trimio amlinellol a ofynnir

1.
pwysigrwydd ystyried patrymau tŵf naturiol er mwyn creu dosbarthiad pwysau cytbwys
2.
y rhesymau tros sefydlu a dilyn canllawiau

16. sut i greu a dilyn canllaw ar gyfer siap yr wyneb

17. y peryglon cysylltiedig o dorri blew’r wyneb yn agos at groen noeth

**18. y perygl o flew yn tyfu am i mewn o ganlyniad i dorri parhaus yn agos

1.
achosion creithio celoid
2.

pwysigrwydd croes-edrych ar gymesuredd a chydbwysedd y toriad
3.
sut i ddefnyddio, lefelu a phrofi cliperi
4.
maint a'r mathau o gliperi, llafnau cliper, trimwyr ac atodiadau sydd ar gael a'r effeithiau mae'r rhain yn eu cyflawni.
5.
y mathau o broblemau all ddigwydd pan yn torri blew'r wyneb a sut gellir eu cywiro

24. pwysigrwydd ymgynghori gydag unigolion drwy gydol y broses o dorri blew’r wyneb

1. yr adweithiau niweidiol a gysylltir â'r gwasanaeth eillio a sut i ymateb iddynt

26. y cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth

1. pam ei bod hi'n bwysig trafod gyda a chanfod gan yr unigolyn ei amcanion, pryderon, disgwyliadau a'r canlyniadau y mae'n eu dymuno a chytuno ar y cynllun gwasanaeth torri blew'r wyneb

28. y strwythurau taliadau a'r dewisiadau ar gyfer gwasanaeth

29. y gofynion deddfwriaethol a digollediad ynglŷn â sicrhau cydsyniad gwybodus am y gwasanaeth

1. pwysigrwydd cadw at y protocol gwasanaeth torri blew'r wyneb

31. amser y gwasanaeth yn unol â'ch polisïau a gweithdrefnau cyfundrefnol

32. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth

33. y rhesymau dros gymryd cyfryngau gweledol o fan triniaeth yr unigolyn a'i gadw yn unol â'r gofynion gwasanaeth, deddfwriaethol, yswiriant a chyfunfrefnol

1.
y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ynglŷn â chwblhau a chadw cofnod gwasanaeth torri blew wyneb yr unigolyn
2.
y deilliannau disgwyliedig o wasanaethau torri blew'r wyneb
3.
diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso a'r modd y mae'n darparu gwybodaeth er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol

37. pwysigrwydd cofnodi canlyniad a gwerthusiad o'r gwasanaeth torri blew'r wyneb

38. y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y gwasanaeth torri blew'r wyneb

## Cwmpas/Ystod